CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 17 Mawrth 2022 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 11 Mawrth 2022.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir McKerlich (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Howells, Berman a Mia Rees

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiant canlynol yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau.

| **Cynghorydd** | **Eitem** | **Natur y Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Joe Carter | Eitem 3 – Cynnig | Rhagfarnus – cyflogwyr yn ymwneud â nifer o ymgyrchoedd Aer Glân. |

3 : HYSBYSIAD O GYNNIG

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried yr Hysbysiad o Gynnig canlynol a gyflwynwyd yn unol â Rheol 4 (b) Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor ar 11 Mawrth 2022.

Cynigiwyd: Y Cynghorydd Joel Williams

Eiliwyd: Y Cynghorydd Lyn Hudson

Y Cynghorwyr: Cowan, Robson a Kelloway.

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Williams ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Hudson wedi dod i law i'w ystyried. Derbyniwyd un Diwygiad oddi wrth y Grŵp Llafur.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Williams i gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

"Mae'r Cyngor hwn yn nodi effaith niweidiol tâl tagfeydd ar economi Caerdydd, gan gynnwys ei thrigolion, ei busnesau a'i diwydiant twristiaeth.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i ddiystyru tâl tagfeydd"

Eiliwyd y Cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Hudson.

Derbyniwyd diwygiad i'r cynnig oddi wrth y Grŵp Llafur. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Wild i gynnig y diwygiad fel a ganlyn:

Dileu'r cynnig cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le; mae'r cynnig diwygiedig felly yn darllen:

Mae'r Cyngor yn nodi:

- Nad oes gan y Cabinet hwn unrhyw gynigion ar gyfer tâl tagfeydd, ac wrth i'r cyfnod cyn etholiad ddechrau yfory, nid oes ganddo amser i gyflwyno unrhyw gynigion ar faterion sydd angen ymgynghoriad cyhoeddus

- Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth 2020 y Cyngor yn ymrwymo i edrych ar nifer o lwybrau i ariannu gwerth £1-2 biliwn o welliannau trafnidiaeth, fel Metro ar draws y ddinas a phrisiau bws £1. O ran opsiynau ariannu mae'n dweud y:
  *"Gallai hyn fod ar nifer o ffurfiau gwahanol, ond un enghraifft yw cynllun lle mae cerbydau sy'n gyrru i Gaerdydd yn talu ffi fechan (e.e. £2 y dydd) am groesi i ardal â thâl. Gellid cynnwys eithriadau ar gyfer cerbydau brys, beiciau modur, deiliaid bathodynnau glas a phobl ag anableddau yn rhan o unrhyw gynllun. Byddai'r opsiwn a ffefrir gennym yn cynnwys eithriad i drigolion Caerdydd rhag unrhyw dâl."*

- Bod y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd

- Bod Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr bellach yn ystyried bod ansawdd aer gwael yn argyfwng iechyd cyhoeddus sy'n effeithio ar iechyd pob dinesydd Caerdydd, yn enwedig plant a phobl hŷn.

- Bod y Cyngor wedi cytuno ar ddau gynnig a gyflwynwyd gan y grŵp ceidwadol ar ansawdd aer sydd wedi annog y cabinet i weithredu ar frys

- Bod Llywodraeth y DU yn wynebu diffyg a amcangyfrifir o £35 biliwn yn ei chyllideb o ganlyniad i golli treth tanwydd a threth car wrth symud i gerbydau trydan

- Bod adroddiad Pwyllgor Dethol Trafnidiaeth Llywodraeth y DU wedi galw am Dâl Defnyddwyr Ffordd cenedlaethol i gymryd lle'r amcangyfrif o £35 biliwn

- Nad yw'r Cyngor wedi cael unrhyw dystiolaeth o unrhyw effaith economaidd gadarnhaol neu negyddol yn dilyn cyflwyno tâl tagfeydd a bod Llundain, Birmingham, Nottingham, Bryste a Chaerfaddon i gyd wedi cyflwyno mecanweithiau codi tâl yn ystod y blynyddoedd diwethaf neu wedi cynnig gwneud hynny

- Bod dyletswydd ar y Cabinet i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys ymgynghori â barn y cyhoedd a busnesau ar unrhyw gynllun arfaethedig, cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac ystyried lles cenedlaethau'r dyfodol

Felly, mae'r Cyngor hwn yn nodi nad yw wedi cael tystiolaeth o unrhyw effaith niweidiol tâl tagfeydd ar economi Caerdydd, gan gynnwys ei thrigolion, ei busnesau a'i diwydiant twristiaeth.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i sicrhau bod unrhyw gynigion yn y dyfodol (sy'n cael eu cyflwyno ganddo ef ei hun neu gan Lywodraeth y DU) ar gyfer mecanwaith codi tâl yn ystyried yr holl oblygiadau yn llawn, gan gynnwys materion amgylcheddol, iechyd y cyhoedd, economaidd a chyfiawnder cymdeithasol.

Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor hwn yn atgoffa ei aelodau y dylai cynghorwyr ystyried bob amser yr hyn sydd orau i ddinasyddion Caerdydd ac nid ein siawns gwleidyddol unigol ein hunain o gadw ein sedd ar y Cyngor.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Huw Thomas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Goodway Gynnig i Gau; sef pleidlais i'w chynnal o ran a ddylid penderfynu ar y mater. Eiliwyd y Cynnig i Gau gan y Cynghorydd Mackie.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig i Gau a gynigiwyd gan y Cynghorydd Goodway ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Mackie.

**Canlyniadau'r Bleidlais:**

**O blaid: 46**
Y Cynghorwyr Ahmed, Dilwar Ali, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Elsmore, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Molik, Naughton, Patel, Parry, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild, Wong a Wood

**Yn erbyn: 23**
Y Cynghorwyr Cowan, Driscoll, Ford, Gibson, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Lyn Hudson, Shaun Jenkins, Jones-Pritchard, Kelloway, Lancaster, McEvoy, Melbourne, Morgan, Owen, Parkhill, Keith Parry, Phillips, Dianne Rees, Robson, Graham Thomas, Walker a Williams

**Ymddiheuriadau: 3**
Y Cynghorwyr Berman, Howells a Mia Rees

**Yn absennol: 1**
Y Cynghorydd Ashgar Ali

**Buddiant Rhagfarnus: 1**
Y Cynghorydd Joe Carter

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig i Gau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Williams i ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd Williams i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Wild ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Thomas.

**Canlyniadau'r Bleidlais:**

**O blaid: 39**
Y Cynghorwyr Ahmed, Dilwar Ali, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Elsmore, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Jackie Parry, Patel, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong.

**Yn erbyn: 23**
Y Cynghorwyr Cowan, Driscoll, Ford, Gibson, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hudson, Jenkins, Jones-Pritchard, Kelloway, Lancaster, McEvoy, Melbourne, Morgan, Owen, Parkhill, Keith Parry, Phillips, Dianne Rees, Robson, Graham Thomas, Walker a Williams.

**Yn ymatal: 7**
Y Cynghorwyr Boyle, Hopkins, Molik, Naughton, Sandrey, Taylor a Wood

**Ymddiheuriadau: 3**
Y Cynghorwyr Berman, Howells a Mia Rees

**Yn absennol: 1**
Y Cynghorydd Ashgar Ali

**Buddiant Rhagfarnus: 1**
Y Cynghorydd Joe Carter

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Wild i siarad cyn i bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd, fel y'i diwygiwyd gan y Grŵp Llafur, gael ei chynnal.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd gan y Grŵp Llafur.

**Canlyniadau'r Bleidlais:**

**O blaid: 39**
Y Cynghorwyr Ahmed, Dilwar Ali, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Elsmore, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Jackie Parry, Patel, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong.

**Yn erbyn: 23**
Y Cynghorwyr Cowan, Driscoll, Ford, Gibson, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hudson, Jenkins, Jones-Pritchard, Kelloway, Lancaster, McEvoy, Melbourne, Morgan, Owen, Parkhill, Keith Parry, Phillips, Dianne Rees, Robson, Graham Thomas, Walker a Williams.

**Yn ymatal: 7**
Y Cynghorwyr Boyle, Hopkins, Molik, Naughton, Sandrey, Taylor a Wood

**Ymddiheuriadau: 3**
Y Cynghorwyr Berman, Howells a Mia Rees

**Yn absennol: 1**
Y Cynghorydd Ashgar Ali

**Buddiant Rhagfarnus: 1**
Y Cynghorydd Joe Carter

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd.